# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 12 Chwefror 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

# 261(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yn ateb cwestiynau ar ran yr Ysgrifennydd Cabinet.

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidogion ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau amserol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Bwyd

(60 munud)

**NDM8814** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) er gwaethaf y digonedd o fwyd o safon a gynhyrchir gan ffermwyr Cymru, mae goruchafiaeth bwyd wedi'i brosesu'n helaeth yn ein diet yn arwain at ganlyniadau dinistriol i iechyd, cyfoeth a llesiant ein cenedl;

b) bod mynediad at fwyd fforddiadwy ac iach yn fater cyfiawnder cymdeithasol, gyda chymunedau tlotach yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan afiechydon sy'n gysylltiedig â diet;

c) bod cynhyrchiant Cymru o 20,000 tunnell o ffrwythau a llysiau y flwyddyn ond yn cyfateb i chwarter dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd fesul person;

d) y gall ehangu cynhyrchu bwyd lleol cynaliadwy helpu i leihau milltiroedd bwyd, gwella diogelwch bwyd, a chreu swyddi gwyrdd yng Nghymru; ac

e) bod pontio i fod yn genedl fwyd gynaliadwy yn gofyn am ddull cydgysylltiedig, cydweithredol ac ataliol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) datblygu strategaeth llywodraeth gyfannol a chydgysylltiedig i wella diet pobl;

b) hyrwyddo manteision bwyd ffres, heb ei brosesu i annog newidiadau dietegol a mynd i'r afael â goruchafiaeth bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth;

c) defnyddio'r buddsoddiad sydd i'w groesawu mewn partneriaethau bwyd lleol i ddod â thyfwyr, arlwywyr a bwytawyr at ei gilydd i ehangu garddwriaeth yng Nghymru;

d) cyflymu'r gwaith o lunio strategaeth fwyd gymunedol o fewn y Chweched Senedd; ac

e) defnyddio pŵer caffael cyhoeddus i wella'r bwyd a weinir i ddisgyblion, cleifion a phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal.

**Cyd-gyflwynwyr**

Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Peter Fox (Mynwy)

**Supporters**

James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)

Lee Waters (Llanelli)

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Samuel Kurtz (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - Sioc ddiwylliannol: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd

(60 munud)

**NDM8822** Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: 'Sioc ddiwylliannol: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2024.

Sylwer: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2025.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Ymchwiliad i gamfanteisio'n rhywiol ar blant

(60 munud)

**NDM8821** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu ymchwiliad annibynnol i gamfanteisio'n rhywiol ar blant gan gangiau meithrin perthynas amhriodol.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu'r cyfan a'i ddisodli gyda'r canlynol:

Cynnig bod y Senedd

1. Yn condemnio'r methiannau sefydliadol a arweiniodd at yr esgeulustod a'r diffyg adrodd achosion o gam-drin plant dros sawl degawd, fel y canfuwyd yn ymchwiliad annibynnol yr Athro Alexis Jay yn 2022.

2. Yn canmol dewrder y dioddefwyr a'r goroeswyr am rannu eu tystiolaethau, ac yn credu y dylai eu lleisiau bob amser gael blaenoriaeth wrth adolygu a chryfhau'r mesurau diogelu perthnasol.

3. Yn cydnabod pryder diweddar y cyhoedd ynghylch trais a cham-drin rhywiol gan rwydweithiau cyfundrefnol.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithredu holl argymhellion Adroddiad Jay yn ddi-oed;

b) ymgysylltu â phob sefydliad ar y rheng flaen sy'n gwasanaethu dioddefwyr a goroeswyr trais a cham-drin rhywiol;

c) gweithio gyda heddluoedd Cymru i gynnal archwiliad Cymru gyfan ar unwaith, gyda goruchwyliaeth annibynnol briodol, a sicrhau cydweithrediad â'r archwiliad ar draws y DU dan arweiniad y Farwnes Casey i raddfa a natur camfanteisio gan gangiau; a

d) ystyried comisiynu ymchwiliad annibynnol llawn yn sgil y dystiolaeth a gasglwyd gan yr archwiliad.

Adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (Saesneg yn unig)

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8810** Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

Cau'r trap am byth - yr achos dros wahardd rasio milgwn yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2025

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 05/02/2025 i'w hateb ar 12/02/2025

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS YR ECONOMI, YNNI A CHYNLLUNIO

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

1 OQ62279 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrff llywodraethu chwaraeon i gefnogi'r lluoedd arfog?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

2 OQ62318 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am ddatblygiad economaidd ym Mlaenau Gwent?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

3 OQ62289 **(e)**

Sut y mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau y mae llifogydd yn effeithio arnynt?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ62295 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o effaith bosibl y gronfa ffyniant gyffredin yn 2025-26 ar Gymru?

**Hannah Blythyn** *Delyn*

5 OQ62311 **(e)**

Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i effaith Bil Hawliau Cyflogaeth Llywodraeth y DU ar Gymru?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OQ62287 **(w)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau canol tref yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

7 OQ62286 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am effaith Brexit ar economi Cymru?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

8 OQ62308 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi sefydlu cwmnïau buddiannau cymunedol?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

9 OQ62312 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar ddiogelwch cyfleusterau storio batris arfaethedig yng Nghymru?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

10 OQ62300 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau costau ynni domestig?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

11 OQ62294 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

12 OQ62283 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant yng nogledd-ddwyrain Cymru?

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

1 OQ62297 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar amseroedd aros cleifion yn Ysbyty Glan Clwyd?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

2 OQ62298 **(d)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau mynediad at wasanaethau erthylu?

**Peter Fox** *Mynwy*

3 OQ62299 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o adroddiad diweddar Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar adran achosion brys Ysbyty Athrofaol y Faenor?

**Hannah Blythyn** *Delyn*

4 OQ62291 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am rôl Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol?

**Hefin David** *Caerffili*

5 OQ62313 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i ddarparwyr gofal cymdeithasol sy'n contractio gwasanaethau ar ran awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OQ62296 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi gofalwyr?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

7 OQ62304 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi menywod ag endometriosis?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

8 OQ62293 **(e)**

Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau recriwtio yn y GIG yng Nghymru?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

9 OQ62301 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gael gwared ar ofal mewn coridorau yn ysbytai Cymru?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

10 OQ62316 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar y cynlluniau i ddatblygu canolfan iechyd a lles integredig yng Nghaergybi?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

11

OQ62314 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gan adrannau damweiniau ac achosion brys ddigon o gyllid a chapasiti?

**Lee Waters** *Llanelli*

12

OQ62307 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i estyn Rhanbarthau Marmot iechyd cyhoeddus y tu hwnt i Went?